

# SL(6)063 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2021

## Cefndir a diben

Mae'r **Rheoliadau** hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2021 ("Rheoliadau Rhif 17").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau fel a ganlyn:

- ei gwneud yn glir y caiff unigolyn roi'r gorau i ynysu i osgoi peri salwch, anaf neu risg o niwed i unigolyn arall ("A") os nad yw'n bosibl neu'n ymarferol i rywun arall gynorthwyo A, os nad yw'r unigolyn yn cynorthwyo A fel rhan o waith yr unigolyn neu drwy ddarparu gwasanaethau gwirfoddol, ac os yw'r risg o niwed i A yn fwy na'r risg o niwed i A sy'n codi o fod yn yr un lle â'r unigolyn a fyddai'n gorfod ynysu fel arall, neu i symud i le gwahanol i fyw rhag peri salwch i unigolyn arall;
- ei gwneud yn glir, at ddiben y gyfraith o ran diogelu data, ar ba sail y caiff swyddogion olrhain cysylltiadau weld gwybodaeth am statws brechu unigolyn;
- ei gwneud yn glir bod rheoliad 57(9) o'r prif Reoliadau, sy'n gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â phryd na chaiff cynulliad neu ddigwyddiad ei drin fel un "awyr agored", yn gymwys i bob crynhoad a digwyddiad;
- hepgor y ddarpariaeth drosiannol, sydd wedi dod i ben, yn rheoliad 10A o'r prif Reoliadau (a oedd yn ymwneud â therfynu, ar 7 Awst 2021, y cyfnod ynysu a oedd yn gymwys i unigolion penodol os oedd yr unigolion dan sylw yn bodloni amodau penodol ar y dyddiad hwnnw, er enghraifft os oeddent wedi cwblhau cwrs o ddosau o frechlyn awdurdodedig, neu os oeddent yn blant.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Rhif 17 er mwyn diwygio rheoliad 16A (gofynion y pàs COVID), sydd wedi'i fewnosod yn y prif Reoliadau, fel a ganlyn:

- ei gwneud yn glir yr ystyrir bod pobl sy'n cymryd rhan mewn gwasanaeth crefyddol mewn lleoliad a ddefnyddir fel arfer fel man addoli, yn eistedd at ddiben rheoliad 16A(1) o'r prif Reoliadau. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu nad yw'r gofynion hynny'n gymwys i unrhyw wasanaethau crefyddol a gynhelir mewn mangre a ddefnyddir fel arfer fel man addoli;
- darparu cysondeb â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol drwy ychwanegu gwledydd ychwanegol at y rhestr o frechiadau derbyniol at ddibenion y pàs COVID.

Nod y Rheoliadau hyn yw sicrhau bod y prif Reoliadau yn glir ac yn gyson, yn hytrach na gosod cyfyngiadau neu ofynion arbennig. Mae'r weithdrefn penderfyniad negyddol, felly, yn



gymwys i'r rheoliadau hyn.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod wedi'i thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Mark Drakeford AS, y Prif Weinidog, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 8 Hydref 2021. Yn benodol, nodwn yr hyn a ganlyn yn y llythyr:

*"Mae'r Rheoliadau yn dod i rym ar 9 Hydref 2021, o fewn 21 diwrnod o gael eu gosod. Mae peidio â chadw at y confensiwn 21-diwrnod yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym ar y cyfle cynharaf. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn diwygio rheoliad newydd 16A sydd i'w fewnosod yn y prif Reoliadau ar 11 Hydref 2021, cyn i'r rheoliad hwnnw ddod i rym. Mae rheoliad 16A(1) [yn] cael ei adnabod fel darpariaeth y pàs COVID.[...] Mae'r diwygiadau hyn yn ofynnol er mwyn cynnal cysondeb â rheoliad 2A o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 fel y'i diwygiwyd o 4 Hydref 2021 ac 11 Hydref 2021. Mae rheoliad 2A yn darparu bod person sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin yn ddarostyngedig i ofynion llai ar gyfer profi am y coronafeirws os yw wedi ei frechu â brechlyn cymwys, ac mae rheoliad 16A o'r prif Reoliadau yn darparu bod tystiolaeth o frechu â'r un brechlyn cymhwysol yn dderbyniol at ddibenion rheoliad 16A(1).*

*Mae peidio â chadw at y confensiwn 21-diwrnod hefyd yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym ar y cyfle cynharaf er mwyn a. darparu eithriad i unigolyn roi'r gorau i ynysu i osgoi peri salwch, anaf neu risg o niwed i unigolyn arall neu i symud i le gwahanol i fyw rhag peri salwch i unigolyn arall; b. ei gwneud yn glir, at ddibenion y Rheoliad Cyffredinol ar*



*Ddiogelu Data (GDPR), ar ba sail y gall olrheinwyr cysylltiadau gael gafael ar wybodaeth am statws brechu unigolyn; c. ei gwneud yn glir yr ystyrir bod pobl sy'n cymryd rhan mewn gwasanaeth crefyddol mewn lleoliad a ddefnyddir fel arfer fel man addoli, yn eistedd at ddiben rheoliad 16A(1) o'r prif Reoliadau; a hepgor y ddarpariaeth drosiannol yn rheoliad 10A, sydd wedi dod i ben."*

## **2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.*

*Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.*

*Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwysu unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol."*

## **3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Serch hynny, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid amrywiol gan gynnwys Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Is-adran Cydraddoldebau Llywodraeth Cymru."*



## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**13 Hydref 2021**



Senedd Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

Welsh Parliament

**Legislation, Justice and Constitution Committee**